

# Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl?

## Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: David Cook

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Cyngor Gweithredu  
Gwirfoddol Cymru (WCVA)

e-bost/rhif ffôn: [dcook@wcva.org.uk](mailto:dcook@wcva.org.uk) | 02920 431 710

Eich cyfeiriad: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart,  
Caerdydd, CF10 5FH.

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **23 Ebrill 2019** i

Cerrig Milltir Cenedlaethol Cymru  
Swyddfa'r Cabinet  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [cabinetoffice@llyw.cymru](mailto:cabinetoffice@llyw.cymru)

**A. Newidiadau i'r meini prawf i ddewis dangosyddion cenedlaethol ar gyfer datblygu'r cerrig milltir cenedlaethol**

C1. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r meini prawf?

|         |                          |
|---------|--------------------------|
| Ydw     | <input type="checkbox"/> |
| Nac ydw | <input type="checkbox"/> |

C2. Os ydych, a yw'r newid arfaethedig yn faen prawf ychwanegol neu yn welliant i un o'r meini prawf presennol? (Ticiwch un blwch)

|            |                          |
|------------|--------------------------|
| Ychwanegol | <input type="checkbox"/> |
| Gwelliant  | <input type="checkbox"/> |

C3. Os yw'n welliant, pa faen prawf presennol fydd yn cael ei wella?

C4. Nodwch eich maen prawf newydd neu ddiwygiedig.

C5. Nodwch sut bydd y maen prawf newydd neu ddiwygiedig hwn yn cyd-fynd â'r meini prawf eraill ac yn cynorthwyo i ddatblygu cyfres fach o gerrig milltir cenedlaethol a fydd yn helpu Gweinidogion i asesu cynnydd Cymru gyfan tuag at y saith nod llesiant.

C6. A ydych yn cynnig dileu unrhyw un o'r meini prawf presennol?

|         |  |
|---------|--|
| Ydw     |  |
| Nac ydw |  |

Os felly, pa faen prawf yr hoffech ei ddileu a pham?

**B. Newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol y byddwn yn eu defnyddio i ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol**

C7. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol yr ydym yn cynnig eu defnyddio i osod cerrig milltir cenedlaethol?

|         |   |
|---------|---|
| Ydw     | x |
| Nac ydw |   |

C8. A ydych chi'n cynnig dileu neu ychwanegu dangosyddion cenedlaethol o'r gyfres fach yr ydym yn cynnig eu defnyddio i osod y cerrig milltir cenedlaethol? (Ticiwch un neu fwy o'r blychau)

|           |   |
|-----------|---|
| Dileu     |   |
| Ychwanegu | x |

C9. Os ydych yn cynnig ychwanegu dangosydd cenedlaethol i osod carreg filltir yn ei erbyn, pa ddangosydd cenedlaethol ydych chi'n cynnig ei ychwanegu?

### Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Mae'r dangosydd hwn eisoes yn bodoli, ond does dim carreg filltir arfaethedig ar ei gyfer. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu un. Mae gwirfoddoli yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer dewis cerrig milltir:

*Cyfle i'n Llywodraeth ddatganoledig ddylanwadu'n sylweddol arnynt*

Mae gan Lywodraeth Cymru [Bolisi Gwirfoddoli, Cynllun Grantiau Gwirfoddoli Cymru, a Chynllun y Trydydd Sector](#), sydd i gyd yn dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad gwirfoddoli yng Nghymru.

*Bydd cyflawni'r garreg filltir hon yn hwyluso cynnydd mewn amrywiol feysydd*

Mae gwirfoddolwyr yng Nghymru yn cyflawni sawl rôl wahanol, o godi sbwriel i gynorthwyo cymdogion hŷn, cynnal digwyddiadau celfyddydol i redeg clybiau chwaraeon. Mae gwirfoddoli yn dylanwadu'n bositif ar bob un o'r saith nod llesiant mewn rhyw ffordd. Mae gwirfoddoli yn cael effaith bositif ar lawer o'r 46 o ddangosyddion yn ogystal, gan gynnwys darparu llwybr at gyflogaeth, mynediad at wasanaethau, mynd i'r afael ag unigrwydd a chynyddu ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.

*Bydd cyflawni'r garreg filltir hon yn cael effaith dros genedlaethau, drwy atal canlyniadau gwael a fyddai'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol*

Mae cannoedd o glybiau chwaraeon ledled Cymru yn cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr, gan ysbrydoli brwdfrydedd dros ffitrwydd a chwaraeon ym mhob grŵp oedran y gall pobl ei ddefnyddio yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae gwirfoddolwyr wrth law i lanhau'r amgylchedd ledled Cymru, gan felly warchod ecosystemau a bioamrywiaeth y wlad. Dyma ddwy enghraifft yn unig - mae pob math o weithgareddau gwirfoddol sy'n effeithio'n bositif ar ddyfodol Cymru.

*Angen camau gweithredu gan nifer o bartneriaid*

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn deddfu bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector, tra mae mudiadau trydydd sector yn gweithio'n gyson mewn partneriaeth gyda'i gilydd a llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae gwirfoddolwyr yn cwmpasu ystod mor amrywiol o weithgareddau mae'n rhaid i fudiadau weithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd, neu fel arall ni fyddent yn llwyddo.

Ar ben hyn, rydym yn pryderu y gall peidio â mesur effaith gwirfoddoli ar gynnydd cenedlaethol arwain, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, at Lywodraeth Cymru a phenderfynwyr eraill yn ddadflaenoriaethu'r trydydd sector pan ddaw hi at fuddsoddi. Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch hyn. Mae [Porth Data'r Trydydd Sector](#) yn dangos bod lefelau buddsoddi yn y trydydd sector eisoes wedi bod yn disgyn yn y blynyddoedd diwethaf; ni hoffem weld hyn yn gwaethygu o ganlyniad i ddiffyg carreg filltir ar gyfer gwirfoddoli ac felly nad yw gwirfoddoli yn cael ei ystyried yn ffynhonnell mor ddilys o fuddsoddiad â'r dangosyddion hynny sydd â charreg filltir.

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru wedi mynegi pryder hefyd ynghylch diffyg carreg milltir ar gyfer dangosydd 38, 'y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos', gydag ofnau tebyg ynghylch dadflaenoriaethu buddsoddiad.

Ystyriwch pa ddangosyddion cenedlaethol y gellid eu dileu hefyd, er mwyn cadw cyfres fach ohonynt neu leihau'r nifer ymhellach.


Ni fyddem yn dadlau dros ddileu dangosyddion o'r un garreg filltir sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Rydym yn sylweddoli yr hoffai Llywodraeth Cymru greu nifer bach, ymarferol o gerrig milltir. Serch hynny, mae gan wirfoddoli ran mor bwysig ac unigryw i'w chwarae yn iechyd, hapusrwydd a llesiant ein cymunedau mae angen ychwanegu carreg filltir ar ei gyfer.

C10. Os ydych yn cynnig dileu dangosyddion cenedlaethol yr ydym ar hyn o bryd yn cynnig eu defnyddio i osod cerrig milltir, pa rai ydych chi'n cynnig eu dileu?




C11. Rhowch esboniad am eich newid arfaethedig, a'i gyfraniad i'r nifer bach, cytbwys o gerrig milltir.

Gweler Cwestiwn 10.



Mae dangosyddion 10, 18 a 21 yn cael eu dylanwadu'n drwm gan benderfyniadau Llywodraeth y DU a'r amodau economaidd ehangach. Mae'n rhaid i'r Cerrig Milltir Cenedlaethol fod yn rhai y gall ein llywodraeth ddatganoledig ni ddylanwadu'n sylweddol arnynt, felly ar gyfer y dangosyddion hyn ni fyddai'n briodol gosod targed sy'n un pwynt penodol. Yn hytrach, rydym yn awgrymu y byddai'n fwy priodol defnyddio rhai o'r dulliau eraill sy'n cael eu disgrifio ar dudalen 13.

C12. A ydych chi'n cytuno â'r rhesymeg hwn, neu oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch sut i edrych ar feysydd nad ydynt yn llwyr o fewn cymhwysedd datganoledig?



### C. Newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol

C13. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?

|         |   |
|---------|---|
| Ydw     | x |
| Nac ydw |   |

C14. Pa fath o newid ydych chi'n ei gynnig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?  
(Ticiwch un blwch o leiaf)

|                                     |   |
|-------------------------------------|---|
| Dileu neu newid dangosydd presennol | x |
| Newydd                              |   |

C15. Os ydych chi'n cynnig newid i ddangosydd presennol neu'n cynnig dangosydd newydd, rhwch y fersiwn yr ydych yn ei chynnig.

## **Newid Dangosydd 21: Canran y bobl sydd mewn gwaith**

Mae'r ymateb ynglŷn â'r dangosydd hwn wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid gan gynnwys Cynnal Cymru ac Oxfam Cymru yn eu rôl fel aelodau o'r Gynghrair Datblygu Cynaliadwy. Rydym yn argymhell ei fireinio i greu data mwy treiddgar ynglŷn â chynnydd Cymru tuag at sawl nod llesiant.

O ystyried lefel tlodi mewn gwaith yng Nghymru, credwn fod dangosydd ar gyflogaeth, heb gyfeirio at dâl, yn aneffeithiol ac yn agored i gael ei gamddehongli o ran y cynnydd y mae Cymru yn ei wneud tuag at fod yn genedl fwy iach, cyfartal a llewyrchus.

- Yn 2015, roedd bron i ddau o bob tri phlentyn a oedd yn byw mewn tlodi yn dod o deuluoedd sy'n gweithio.<sup>1</sup>
- Yn 2016, 55% oedd canran y bobl mewn tlodi a oedd mewn teulu sy'n gweithio, y ganran uchaf erioed i gael ei chofnodi.<sup>2</sup>

Hoffem weld dangosydd gwahanol sy'n cyfeirio at y Cyflog Byw Go lawn i helpu i lunio darlun mwy manwl gywir o lesiant unigol, cymdeithasol ac economaidd y wlad.

Diffiniad y Living Wage Foundation o'r Cyflog Byw Go lawn yw'r swm y mae angen i unigolyn ei ennill i dalu am gostau byw sylfaenol. Mae wedi'i seilio ar ddull basged o nwyddau gan gynnwys teithio, costau rhent, bwyd, dillad a biliau angenrheidiol ar gyfer safon byw weddus.<sup>3</sup>

Mae'r Cyflog Byw go iawn ar wahân i 'gyflog byw cenedlaethol' y llywodraeth, sef yr isafswm cyflog cyfreithiol i bobl dros 25 mlwydd oed, sydd wedi'i seilio ar darged i gyrraedd 60% o enillion canolrifol erbyn 2020. Yn 2017, £9.75 oedd cyflog byw'r Living Wage Foundation i'r rheini sy'n gweithio yn Llundain a £8.45 i'r rheini sy'n gweithio rywle arall yn y Deyrnas Unedig.

Dangosodd data a ryddhawyd gan y Living Wage Foundation yn 2017 fod bron i 1 o bob 4 person mewn gwaith (22%) - 5.6 miliwn o bobl - yn ennill llai na Chyflog Byw go iawn, sydd wedi cynyddu 1.1 miliwn ers 2012. O fewn hyn, roedd effaith anghymesur ar fenywod, pobl ifanc, gweithwyr rhan amser a gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).<sup>3</sup>

Credwn felly fod carreg filltir i ysgogi ac olrhain cynnydd tuag at gyflogaeth sy'n talu Cyflog Byw Go lawn yn hanfodol i sicrhau Cymru sy'n Fwy Cyfartal, yn ogystal â Chymru Lewyrchus.

Mae tystiolaeth a rannwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad *Hybu Ffyniant i Bawb drwy Fuddsoddi ar gyfer lechyd a Llesiant* yn awgrymu bod hyn hefyd yn allweddol i sicrhau Cymru lachach gan fod "astudiaethau yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn dangos bod cyflwyno isafswm cyflog yn gwella iechyd meddwl ac yn lleihau'r risg o farwolaeth, gydag effeithiau posibl ar draws cenedlaethau." Mae cyflwyno cyflog byw wedi'i gynnwys ymysg un o ddeg o gyfleoedd i weithredu polisi ar sail tystiolaeth ar gyfer "camau blaenoriaeth gwerth



am arian i atal salwch". Pwysleisiwn fodd bynnag fod yn rhaid i hwn fod y Cyflog Byw Go lawn yn hytrach na'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Living Wage Foundation, gan weithio gydag Ysgol Fusnes Caerdydd, hefyd yn dangos y buddion i'r cwmni neu'r mudiad os yw'n cynnig y Cyflog Byw go iawn. Mewn arolwg o dros 800 o fusnesau sydd ag achrediad Cyflog Byw go iawn yn 2017, yn amrywio o fusnesau bach a chanolig i rai o gan cwmni'r FTSE, dywedodd 93% eu bod ar eu hennill fel busnes ar ôl dod yn gyflogwr Cyflog Byw go iawn. Ymysg y buddion i'r busnes yr oedd hwb i ysbryd staff, gwelliant o ran recriwtio staff a dal gafael arnynt, mwy o gymhelliant ac ymroddiad a pherthynas well rhwng staff a rheolwyr.

Awgryma hyn y bydd symud tuag at fabwysiadu'r Cyflog Byw Go lawn i bawb o fudd i economi gyfan Cymru yn ogystal â'i theuluoedd a'i chymunedau.

Mae'n werth nodi dangosydd yr Alban ar gyfer ei Chanlyniadau Cenedlaethol yn y maes hwn: 'Canran y gweithwyr sy'n ennill llai na Chyflog Byw'. Byddai ychwanegu "- ac yn cael eu talu'r Cyflog Byw go iawn" at Ddangosydd 21 yn caniatáu cymhariaeth gan y byddai angen casglu data ynglŷn â chanran y bobl sydd mewn gwaith ac o fewn hyn y gyfran o'r rheini sy'n cael eu talu'r Cyflog Byw Go lawn a'r rheini sy'n cael eu talu llai na hynny. Gallai hyn ganiatáu cymariaethau defnyddiol rhwng ymyriadau ar lefel llywodraeth ddatganoledig yn ogystal â gyrru polisi Cymru tuag at ganlyniad a fyddai'n helpu i wneud cynnydd mewn sawl maes llesiant.

Am y rhesymau hyn i gyd, argymhellwn fireinio Dangosydd 21 i'r canlynol:

'Canran y bobl sydd mewn gwaith ac yn cael eu talu'r Cyflog Byw go iawn.'

A bod carreg filltir yn cael ei gosod i ysgogi ac olrhain cynnydd tuag at hyn.

Cyfeiriadau:

1. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Nearly Two Thirds of Children in Poverty Live in Working Families, Gorffennaf 2015
2. KPMG, Living Wage Research, Tachwedd 2016
3. Low Pay in the Charity Sector, Living Wage Foundation, 2017
4. Gwefan Living Wage Foundation, 2019

**Newid dangosydd 23: 'Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol'**

Nodwn sylwadau Llywodraeth Cymru bod gosod carreg filltir ar gyfer y dangosydd hwn yn anodd oherwydd diffyg data a'r drafferth wrth ddeall yr effaith y gallai ymyriadau ei chael ar gyflymder cynnydd. Gobeithiwn nad yw hyn yn atal carreg filltir rhag cael ei gosod ar gyfer y dangosydd hwn gan y byddem yn sicr yn annog datblygu un.

Mae [Dangosyddion Cenedlaethol: Dogfen Dechnegol](#) yn nodi 'patrymau pleidleisio' fel yr unig enghraifft o ddata cyd-destunol o gymorth i ddadansoddi'r data - byddai'n fuddiol cynnwys 'lefelau gwasanaethau a gydgynhyrchir' yma. Mae ein hadroddiad [Grymuso Cymunedau](#) yn nodi mai un o'r agweddau allweddol ar gymunedau sydd wedi'u grymuso yw sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cydgynhyrchu gan gyrrff cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau. Po fwyaf o wasanaethau sy'n cael eu cydgynhyrchu o ddifrif mewn ardal leol y mwyaf tebygol y bydd pobl yn teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#), a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig casgliad o egwyddorion i ddarparwyr gwasanaethau i sicrhau y gall pobl a chymunedau ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylai dilyn y rhain arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau.

#### **Newid dangosydd 24: 'Canran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt'**

Mae Fair Treatment for Women in Wales wedi dweud y dylid newid y mesuriad technegol ar gyfer y dangosydd hwn i 'Y ganran o'r oedolion (16+) sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, *yn enwedig mynediad at ofal trydyddol/arbenigol*. Diben hyn yw sicrhau nad yw rhwystrau yn atal pobl rhag cael at y gofal y mae ei angen arnynt, hyd yn oed os nad yw gofal ond ar gael drwy fwrdd iechyd mewn ardal wahanol i'r un y mae'r claf yn byw ynddi. Bydd hefyd yn sicrhau nad yw pobl yn meddwl bod y dangosydd yn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau trafniadaeth, canolfannau hamdden ac ati yn unig.

C16. Os ydych wedi cynnig dangosydd newydd, ystyriwch pa ddangosyddion cenedlaethol y gellid eu dileu, er mwyn cadw cyfres fach ohonynt neu leihau'r nifer ymhellach.

C17. Os ydych yn cynnig dileu un o'r dangosyddion cenedlaethol presennol, nodwch pa un.



C18. Nodwch sut bydd eich newid arfaethedig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol yn ein helpu i fesur y cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Bydd y newid arfaethedig hwn i Ddangosydd 23, yn syml, yn darparu data a chyddestun pellach yn ystod y broses ddadansoddi ac yn ddefnyddiol i bob partner. Ni chredwn y byddai hyn yn faich ychwanegol ond teimlwn y bydd yn darparu data gwell.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

